# Canllaw i ganlyniadau

## Llwybrau Mynediad

## Cymwysterau Llwybrau Ieithoedd

**Ionawr 2026**

Mae'r ddogfen hon yn cynnig trosolwg o ganlyniadau ar gyfer **Cymwysterau Llwybrau.** Mae'n rhoi manylion ynghylch beth i'w ddisgwyl ar ddiwrnodau canlyniadau, y ddogfennaeth y byddwch yn ei derbyn a lle y gellir dod o hyd i gyngor ac arweiniad ychwanegol.

## Cynnwys


1. **Diwrnod y Canlyniadau** 3
   - i) **Casglu Canlyniadau Arholiadau** 3
   - ii) **Beth i'w Ddisgwyl** 3
   - iii) **Sut mae'r Canlyniadau yn cael eu dangos ar y Slip Canlyniadau** 3
   - iv) **Symbolau a ddefnyddir ar slip canlyniadau** 4
2. **Deall Canlyniadau** 4
3. **Adroddiadau Cymedrolwyr** 5
4. **Beth i'w wneud os yw ymgeisydd am wneud ymholiad am ganlyniad** 5
5. **Pryd bydd tystysgrifau ar gael** 6

**Atodiad 1 – Enghraifft o Slip Graddau** 7

# 1. Diwrnod y Canlyniadau

## i) Casglu canlyniadau arholiadau

Rhaid i ymgeiswyr gasglu eu canlyniadau arholiadau o safle eu hysgol neu goleg (canolfan), fel arfer ar y diwrnod canlyniadau swyddogol.

Diwrnod cyhoeddi canlyniadau cyfres Ionawr 2026 yw dydd **Iau 5 Mawrth 2026** o 8:00am ymlaen.

Nid yw CBAC yn gallu darparu na thrafod canlyniadau dros y ffôn na drwy gyfathrebu ar e-bost ag ymgeiswyr neu rieni, hyd yn oed os yw'r ysgol neu'r coleg wedi cau. Dylai ymgeiswyr, felly, gadarnhau gyda'u hysgol neu goleg pryd a ble y bydd canlyniadau ar gael i'w casglu a sut a gyda phwy y gallent drafod unrhyw faterion neu bryderon.

Ni ddylid datgelu canlyniadau i unrhyw un arall gan gynnwys awdurdodau lleol a'r cyfryngau tan ar ôl 9.30am ar y dydd Iau.

## (ii) Beth i'w ddisgwyl

Ar ddiwrnod y canlyniadau, fel arfer bydd ymgeiswyr yn derbyn darn o bapur gyda'u canlyniadau arno (y 'slip canlyniadau') (gweler Atodiad 1). Os yw ymgeiswyr wedi sefyll cymwysterau gyda byrddau arholi gwahanol, gallan nhw dderbyn mwy nag un slip canlyniadau, neu gall yr ysgol neu goleg greu un slip sy'n dangos yr holl ganlyniadau gyda'i gilydd.

Canlyniadau rhagarweiniol yw'r rhain ar hyn o bryd; gall fod newidiadau yn hwyrach ymlaen, er enghraifft yn dilyn Adolygiad o Gymedroli.

## iii) Sut mae'r canlyniadau yn cael eu dangos ar y slip canlyniadau

### Llwybrau Mynediad

Bydd slipiau canlyniadau yn dangos canlyniadau ymgeisydd ar gyfer pob cydran (ar gyfer y pynciau) a safodd yr ymgeisydd hwnnw yn ystod y gyfres arholiadau honno. Adroddir canlyniadau Llwybrau Mynediad fel Llwyddiant (P) ar naill ai Mynediad 1 (E1), Mynediad 2 (E2) neu Mynediad 3 (E3). Mae dyfarniad lefel 1 (L1) ar gael hefyd mewn rhai meysydd pwnc.

Adroddir canlyniadau unedau sy'n ffurfio'r cyfnewid fel Llwyddiant (P) ond nodir hefyd nifer y credydau a enillwyd ar gyfer yr uned.

Ni fydd ymgeiswyr sy'n methu cyrraedd y safon ofynnol i Lwyddo yn cael gradd (Q).

### Cymwysterau Llwybrau Ieithoedd

Bydd slipiau canlyniadau yn dangos canlyniadau ymgeisydd ar gyfer pob cymhwyster a safwyd yn ystod y gyfres. Adroddir canlyniadau fel Llwyddiant (P) a byddant yn dangos maint a lefel y Cymhwyster h.y. dyfarniad Lefel 1 mewn Ffrangeg ysgrifenedig: Gwybodaeth bersonol.

Ni fydd ymgeiswyr sy'n methu cyrraedd y safon ofynnol i Lwyddo yn cael gradd (Q).

### iv) Symbolau a ddefnyddir ar slip canlyniadau

Yn ogystal â graddau a marciau, gall slipiau canlyniadau gynnwys symbolau eraill:

mae X yn dangos nad yw canlyniad yn cael ei gyhoeddi oherwydd absenoldeb ymgeisydd o bob cydran/uned. Mae'n bosibl hefyd y penderfynwyd peidio â chyhoeddi canlyniad. Ni fydd unrhyw bwnc ag (X) yn ymddangos ar y dystysgrif.

Mae Q yn dangos bod canlyniad i ddod neu ddim ar gael ar hyn o bryd.

# Rhoddir y dangosydd hwn nesaf i'r radd gyffredinol os yw'r ymgeisydd wedi cwblhau gwaith ar gyfer rhai, ond nid pob un, o gydrannau neu unedau'r pwnc.

## 2. Deall Canlyniadau

### Llwybrau Mynediad

Dyfernir gradd y cymhwyster ar sail cyfuno'r graddau a gyflawnir ar gyfer credyd uned. Rhoddir gwerth credyd i bob uned o 1 i 5 credyd. Er mwyn cyflawni'r cymhwyster perthnasol mae'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau unedau o werth digonol i gyflawni'r canlynol:

**Dyfarniad -** 8 credyd neu fwy, gydag o leiaf 5 credyd wedi'u cyflawni o unedau sydd ar neu uwchben lefel y cymhwyster.

| Credydau a Gyflawnwyd | Isafswm nifer y credydau sy'n ofynnol ar lefel y cymhwyster neu'n uwch |
|---|---|
| 8 | 5 |
| 9 | 5 |
| 10 | 6 |
| 11 | 6 |
| 12 | 7 |

**Tystysgrif** - 13 credyd neu fwy, gydag o leiaf 7 credyd wedi'u cyflawni o unedau sydd ar neu uwchben lefel y cymhwyster.

| Credydau a Gyflawnwyd | Isafswm nifer y credydau sy'n ofynnol ar lefel y cymhwyster neu'n uwch |
|---|---|
| 13 | 7 |
| 14-15 | 8 |
| 16-17 | 9 |
| 18-19 | 10 |
| 20-21 | 11 |
| 22-23 | 12 |
| 24-25 | 13 |
| 26-27 | 14 |
| 28-29 | 15 |
| 30-31 | 16 |
| 32-33 | 17 |
| 34-35 | 18 |
| 36 | 19 |

**Diploma** - 37 neu fwy o gredydau, gydag o leiaf 19 o gredydau wedi'u cyflawni o unedau sydd ar neu uwchben lefel y cymhwyster.

| Credydau a Gyflawnwyd | Isafswm nifer y credydau sy'n ofynnol ar lefel y cymhwyster neu'n uwch |
|---|---|
| 37 | 19 |
| 38-39 | 20 |
| 40-41 | 21 |
| 42-43 | 22 |
| 44-45 | 23 |
| 46-47 | 24 |
| 48 | 25 |
| 49 | 26 |
| 50+ | O leiaf 51% |

## 3. Adroddiadau Cymedrolwyr

Mae adroddiadau cymedrolwyr ar gael i'w lawrlwytho o'r o’r adran asesiad mewnol / canlyniadau ar Porth hyd at **3 Mai 2026.**

Ar gyfer Llwybrau Mynediad, mae adroddiadau Cymedrolwyr ar gael i'w lawrlwytho o'r adran Canlyniadau > Lawrlwytho Ffeiliau – Argraffu Canlyniadau ar Porth hyd at **3 Mawrth 2027**.

Dylai canolfannau y mae angen adroddiadau arnynt ar ôl y dyddiad hwn gysylltu’n uniongyrchol â thîm y pwnc i gael mynediad i'r adroddiad.

## 4. Beth i'w wneud os yw ymgeisydd am wneud ymholiad am ganlyniad

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn trafod unrhyw bryderon â'u hysgol neu goleg, swyddog arholiadau neu athro fel arfer, a phenderfynu ar yr opsiynau gorau sydd ar gael.

Os teimlir bod gwall wedi digwydd, gellir gwneud cais am

- Adolygiad o'r cymedroli ar ôl y canlyniadau – noder nad yw hwn ar gael ar gyfer ymgeiswyr unigol.

Ni all ymgeiswyr mewnol na rhieni wneud cais. Bydd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi yn uniongyrchol gan CBAC i'r ysgol neu goleg, a byddan nhw wedyn yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r ymgeiswyr.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â pathways@wjec.co.uk

## 5. Pryd bydd tystysgrifau ar gael

Anfonir tystysgrifau i ganolfannau ar ddiwedd Mai.

Dylai ymgeiswyr wirio bod eu manylion personol, enw a dyddiad geni, yn gywir ar y slip canlyniadau a rhoi gwybod i'r Swyddog Arholiadau os oes unrhyw wallau. **Rhaid i Swyddogion Arholiadau roi gwybod i CBAC am wallau, yn ysgrifenedig, yn ddim hwyrach na 31 Mawrth.** Os nad yw gwallau'n cael eu cywiro yn y cyfnod hwn, bydd cost am dystysgrifau newydd ar ôl eu cyhoeddi. Dylai ymgeiswyr gadarnhau â'u hysgol neu goleg beth yw'r trefniadau ar gyfer derbyn eu tystysgrifau.

Atodiad 1 – Enghraifft o Slip Graddau

## SUMMARY OF RESULTS

ENTRY PATHWAYS JUNE 2017

| CENTRE NO. | CENTRE NAME | DATE OF BIRTH |
|---|---|---|
| 68999 | Test Centre | |
| CANDIDATE NO. | CANDIDATE NAME | DATE OF BIRTH |
| 40008 | Forename Surname | 21/04/98 |
| CANDIDATE UCI | CANDIDATE ULN | |
| | | |

| | | | Credits | Grade |
|---|---|---|---|---|
| PERSONAL PROGRESS | **ENTRY 1 CERT. CASH IN** | **6000/C1** | | **P** |
| INDEPENDENT LIVING | **ENTRY 2 AWARD CASH IN** | **6002/A2** | | **P** |
| LIVING SKILLS: YOUR OWN HOME | ENTRY 1 | 6062/E1 | 002 | P |
| LIVING SKILLS: BEING HEALTHY | ENTRY 1 | 6063/E1 | 002 | P |
| SKILLS FOR WORK: GET THINGS DONE | ENTRY 1 | 6064/E1 | 004 | P |
| SKILLS FOR WORK FOLLOW INSTRUCTION | ENTRY 1 | 6065/E1 | 002 | P |
| **1** | **2** | **3** | **4** | **5** |

| | |
|---|---|
| **1** | Yn dangos y cymhwyster/uned y cofrestrwyd yr ymgeisydd amdano/amdani. |
| **2** | Yn dangos yr opsiwn y cofrestrwyd yr ymgeisydd amdano. Os nad yw'r Pwnc wedi'i ddangos mewn print trwm, mae'n golygu ei bod yn uned sy'n cyfrannu at y cymhwyster cyffredinol |
| **3** | Yn dangos cod pwnc y cymhwyster/uned |
| **4** | Yn dangos nifer y credydau a enillwyd am yr uned. Ni fydd pynciau mewn print trwm yn dangos credydau, y rhain yw'r cymwysterau llawn. |
| **5** | Yn dangos y radd am y cymhwyster/uned. Mae P yn dynodi gradd Llwyddo yn y cymhwyster neu'r uned. Mae gradd Q yn dangos na chyflawnwyd y cymhwyster/uned eto. |